

# Canllaw cam wrth gam i archebu a phrynu cyhoeddiadau CHTG

## Chwilio am gyhoeddiadau

1. I chwilio'r Siop – gallwch ddefnyddio'r categorïau i hidlo'r cyhoeddiadau neu ddefnyddio'r botwm chwilio cyffredinol yn y bar uchaf. Dewis arall yw lawr lwytho'r pdf cyhoeddiadau a gwneud nodyn o fanylion yr eitem(au).

## Archebu cyhoeddiadau

2. Unwaith y byddwch wedi dod o hyd i'r eitem yr hoffech ei brynu, dewiswch nifer y copïau ac **"Ychwanegwch i'r fasged"**. Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen **"Basged"**. Gallwch newid nifer eich cyhoeddiadau a diweddarau'r fasged.
3. Os hoffech chwilio am eitemau pellach, dychwelwch i'r siop gan ddefnyddio'r botwm **"Yn ôl i'r Siop"** a gwnewch ychwanegiadau pellach i'r fasged.
4. Ar y dudalen **Siop**, os nad ydych yn gallu dod o hyd i eitem ac yn dymuno parhau i dalu, cliciwch ar y ddolen fasged yn y bar uchaf. Bydd hyn yn mynd â chi yn ôl i'r dudalen Basged lle gallwch barhau i'r sgriniau talu.
5. Ar dudalen y Fasged, pwyswch y botwm **"Ymlaen i dalu"**.
6. Ar y dudalen yma os ydych yn aelod o'r Gymdeithas neu eisoes wedi cofrestru, gofynnir i chi fewngofnodi i'r safle. Fel arall, gallwch wirio fel gwestai. Cwblhewch eich manylion.
  - Os ydych yn aelod taledig o Gymdeithas Hanes Teulu Gwynedd, mewnbynnwch eich e-bost a'ch cyfrinair a pharhewch â'ch archeb
  - Os ydych yn aelod, a dyma'r tro cyntaf i chi ddefnyddio ein gwefan, neu wedi anghofio eich cyfrinair, defnyddiwch yr opsiwn ailosod cyfrinair. Mi ofynnir am gyfeiriad E-bost. Teipiwch yr e-bost a ddefnyddiwyd gennych wrth ymuno â'r Gymdeithas a gwasgwch "Ailosod". Byddwch yn derbyn e-bost gyda chyfrinair dros dro y gallwch ei ddefnyddio i fewngofnodi i'r wefan. Gallwch newid eich cyfrinair i rywbeth unigryw trwy ddefnyddio'r ddolen Newid Cyfrinair yn "Dashfwrdd eich Cyfrif". Os nad ydych yn derbyn e-bost, mae'n debygol eich bod yn defnyddio'r e-bost anghywir – cysylltwch ag [aelodaeth@chtgwyneddfhs.cymru](mailto:aelodaeth@chtgwyneddfhs.cymru) i ddiweddarau eich e-bost. Pan fyddwch wedi cwblhau'r broses hon, pwyswch yr eicon basged yn y bar uchaf i fynd yn ôl i'r siop a chwblhau eich archeb.
  - Gallwch archebu ein cyhoeddiadau os nad ydych yn aelod o'r Gymdeithas. Crëwch "Cyfrif Gwestai" gyda'r wefan a bwrw ymlaen â'ch archeb.

## Dewis Cyfeiriad

7. Y cam nesaf yw dewis eich cyfeiriadau bilio a danfon. Os ydych eisoes yn aelod, mae'n debygol y bydd gennych gyfeiriad bilio a danfon. Gallwch ychwanegu cyfeiriadau newydd, golygu cyfeiriadau presennol, a dewis cyfeiriad bilio neu ddanfon amgen. Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn gallwch symud **"Ymlaen i dalu"**

## Dulliau Cludo

8. Nesaf byddwch yn symud ymlaen i'r dudalen dewis y **"Dull cludo"**. Byddwch yn cael cynnig dau ddewis arall - Casgliad lleol am ddim (trwy drefniadau gyda'r Swyddog Gwerthiant) neu drwy anfon nwyddau i gyfeiriad yn y DU. Bydd costau cludo'r DU yn dibynnu ar gost y cyhoeddiadau a ddewisir. Dewiswch y Dull Cludo priodol a cliciwch

ar "**Cyflwyno Archeb**" i fynd i'r dudalen "**Cadarnhau Archeb**". Gweler pwynt 15 isod am wybodaeth am archebion Tramor.

### **Cadarnhau'r Archeb**

9. Mae'r dudalen "**Cadarnhau Archeb**" yn eich galluogi i wirio'r archeb. Gallwch barhau i ddychwelyd i'r Fasged (botwm ar waelod y dudalen) ac ychwanegu neu newid eich eitemau. Os yw'r archeb yn gywir, dewiswch eich dull talu, cytuno i'r Telerau ac Amodau, a Chyflwyno'r archeb.

### **Dulliau Talu**

10. Talwch yn ddiogel trwy PayPal. Nid oes angen cyfrif PayPal arnoch i ddefnyddio'r dull talu hwn. Yn syml, sgroliwch o dan y botwm mewngofnodi PayPal a dewis Talu trwy Gerdyn Credyd neu Ddebyd.
11. Os yw'n well gennych archebu a thalu gyda siec neu drwy **BACS (Trosglwyddo Banc)**, ni ofynnir i chi dalu ar-lein.
12. Mae'r opsiwn Arian Parod at ddefnydd gweinyddol yn unig
13. Bydd e-bost awtomatig yn cael ei anfon at gwsmeriaid. Bydd yr e-bost yn cadarnhau'r archeb ac os ydych wedi dewis talu gyda siec neu Drosglwyddiad Banc bydd yn rhoi gwybod i chi sut i dalu am y nwyddau.
14. Os daw cyfanswm eich archeb i dros £90, ni fyddwch yn gallu talu ar-lein a gofynnir i chi gysylltu â'r Swyddog Gwerthiant a fydd yn rhoi'r costau dosbarthu i chi ac yn rhoi gwybod i chi sut i dalu am y nwyddau .

### **Archebion Tramor**

15. Os oes angen eitemau wedi'u cludo **Y TU ALLAN** i'r Deyrnas Unedig, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel, defnyddiwch y ffurflen ar-lein. Ni ofynnir i chi dalu **ar-lein**, ond byddwch yn dilyn camau 1 - 8 nes i chi gyrraedd y dudalen **Cadarnhau Archeb** lle gallwch gyflwyno'ch archeb. Ewch ymlaen fel petaech yn talu am yr eitemau. Bydd y Swyddog Gwerthiant yn cysylltu â chi drwy e-bost gyda manylion cyfanswm cost eich archeb, gan gynnwys costau dosbarthu p & p a bydd yn rhoi gwybod i chi sut i dalu am y nwyddau. Mae costau postio ar gyfer **gwledydd tramor** yn dibynnu ar y cyrchfan a chyfanswm pwysau'r eitemau archeb. Mae isafswm tâl postio o £5 am archeb tramor.
16. Gweler **Telerau Defnyddio ein Gwefan** i gael rhagor o wybodaeth am archebu, costau postio a thalu am ein cyhoeddiadau. Mae ein **Polisi Preifatrwydd** yn ymdrin â sut rydym yn defnyddio ac yn rheoli eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

Rhaid i ni dderbyn **taliad ymlaen llaw** cyn y gellir prosesu eich archeb a gellir anfon y nwyddau oni bai ein bod wedi cytuno fel arall ymlaen llaw yn ysgrifenedig.

Fel arfer byddwn yn trefnu i nwyddau gael eu hanfon o fewn **10 diwrnod gwaith** o dderbyn eich archeb oni bai bod cyfnod hirach wedi'i nodi ar dudalennau perthnasol ein gwefan. Os nad yw eitem ar gael am unrhyw reswm, byddwch yn cael eich hysbysu ac yn cael cynnig dewis o eitem arall neu ad-daliad. Mae ein Cymdeithas yn cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr ac oherwydd trefniadau gwyliau ac am resymau eraill ni fyddwn yn gallu cwrdd â'r amserlen hon o bryd i'w gilydd. Pan fydd hynny'n berthnasol, bydd hysbysiad yn amrywio'r ddarpariaeth hon yn cael ei ddangos ar dudalen Hafan ein gwefan.